

Contractwyr

Eich cyfrifoldeb chi yw cael gwybod gan y Penaethiaid priodol pryd fydd angen i fysiau redeg.

Sicrhewch fod yswiriant cerbyd modur, yswiriant cyhoeddus ac yswiriant atebolrwydd cyflogwr digonol mewn grym bob amser a bod y Cyngor Sir yn cael ei indemnio'n llawn.

Sicrhewch fod y cerbydau'n cydymffurfio'n llawn â holl ofynion cytundebol, DfT, VOSA, yr awdurdod trwyddedu tacsis a'r Comisiynydd Traffig, bod cerbydau mewn cyflwr diogel, addas i'r ffordd fawr ac yn lân, sych, cynnes a chysurus oddi mewn.

Sicrhewch fod TCC yn cael ei osod ac yn gweithio, lle bo gofyn. Sicrhewch gydymffurfio â Deddf Gwarchod Data.

Sicrhewch eich bod yn darparu digon o le ar gyfer y teithiau a wnewch. Nid yw sefyll yn cael ei ganiatáu ar deithiau rhwng cartref ac ysgol. Hysbyswch Gludiant Teithwyr yn brydlon ynghylch unrhyw orlwytho a allai ddigwydd.

Sicrhewch fod pob cerbyd yn cludo diffoddwr tân a phhecyn cymorth cyntaf i safonau'r rheoliadau priodol, a'u bod yn amlwg ac o fewn cyrraedd yn rhwydd.

Cadarnhewch mai dim ond gyrwyr gyda'r hawl angenrheidiol sy'n cael gyrru. Mae hyn yn cynnwys hawl PCV ar gyfer bysiau a bathodyn gyrrwr priodol ar gyfer tacsis. Archwiliwch drwyddedau gyrru o leiaf bob chwe mis.

Sicrhewch fod gyrwyr yn cael eu hyfforddi i'r safonau penodedig a'u bod yn gyfarwydd ag unrhyw offer ychwanegol sydd ei angen.

Sicrhewch fod staff yn cael eu clirio gyda'r Cyngor dan ofynion y Cynllun Datgelu a Gwahardd. Dylai gyrwyr wisgo eu bathodynnau adnabod bob amser.

Sicrhewch fod holl staff yn gwybod beth i'w wneud os digwydd argyfwng: gwrthdrawiad, torri i lawr, cau ffordd neu dywydd garw.

Dylai aelod o'ch staff fod ar gael yn eich eiddo ac adeiladau pan fydd cerbydau allan, rhag ofn unrhyw argyfwng.

Hysbyswch unrhyw wrthdrawiadau neu ddigwyddiadau ar unwaith i'r Pennaeth a Chludiant Teithwyr ar y ffurflenni electronig a ddarperir. Os yw'r ysgol ar gau, mae Cludiant Teithwyr ar agor rhwng 0800 ac 1645 o leiaf ar ddiwrnodau ysgol. Hysbyswch yr Heddlu os bydd unrhyw anaf.

Sicrhewch fod eich dulliau gweithio diogel ac asesiadau risg yn gywir a chyfredol. Rhannwch y rhain gyda'ch gyrwyr.

Sicrhewch nad yw unrhyw barseli neu nwyddau'n cael eu cludo yn yr ardal deithwyr a bod unrhyw offer angenrheidiol yn ddiogel.

Pan fyddwch yn codi am gludiant, sicrhewch fod tocyn dilys, cywir yn cael ei gyhoeddi o beiriant tocynnau. Rhowch o leiaf bythefnos o rybudd i ddysgwyr ac ysgolion o unrhyw newid ym mhris tocynnau.

Caiff contractwyr eu hatgoffa fod angen iddynt sicrhau fod gwybodaeth gydgyfrinachol a roddwyd iddynt yn cael ei gadw'n ddiogel a, phan fo angen, yn cael ei wared mewn ffordd amserol a diogel. Cyfeiriwch at y canllawiau gofynnol a gyhoeddwyd ym mis Awst 2013.